# Astudiaeth Achos

## Dyma Ni

RAY Ceredigion

### Cefndir

Prosiect peilot oedd Dyma Ni gyda'r nod o gefnogi pobl anabl rhwng 17-30 oed. Deilliodd y prosiect o fwlch canfyddedig yn y gefnogaeth i bobl ifanc ag anableddau yng Ngheredigion. Ar hyn o bryd, wrth i bobl ifanc ag anableddau gyrraedd 18 oed, mae gostyngiad yn y cymorth sydd ar gael sy'n hwyluso integreiddio cymdeithasol.

### Cyflwyno

Dechreuodd y prosiect gyda 10 wythnos o weithgareddau blasu, wedi'u cynllunio i archwilio sgiliau a diddordebau'r cyfranogwyr, gan gynnwys garddio, gweithgareddau amgylcheddol awyr agored, coginio, gwaith coed, gwaith helyg, celf a chrefft.



Datblygwyd cynlluniau person-ganolog hefyd ar gyfer pob person ifanc gydag amserlen a oedd yn caniatáu iddynt ennill profiad yn eu meysydd diddordeb penodol. Ar ddiwedd y cyfnod cynhaliwyd adolygiad, gyda'r nod o ddatblygu ffyrdd y gall sgiliau a diddordebau pob person ifanc eu helpu i ymgysylltu'n llawnach â'r gymuned ehangach.

Oherwydd cloi cenedlaethol Covid-19, bu'n rhaid i weithgareddau'r prosiect addasu. Cadwodd staff y prosiect mewn cysylltiad â chyfranogwyr trwy ffôn symudol pwrpasol y prosiect gyda galwadau ffôn lles wythnosol. Wrth i gyfyngiadau leddfu, dechreuodd sesiynau 'Cerdded a Siarad' gael eu cynnal gydag aelod o staff yn cyfarfod â'r person ifanc, y tu allan, a threulio dwy awr o bellter cymdeithasol yn cerdded a siarad.

### Effaith

**Sut mae'r cyfranogwyr wedi elwa o Dyma Ni?**

**Hyder**
**Annibyniaeth**
**Datblygiad Personol**
**Seibiant a Gofal Diogel**
**Integreiddio Cymunedol**

**"Mae hi'n bendant wedi magu hyder trwy fynd yno, dod allan o'i chragen yn fwy, yn fwy siaradus, wedi cael profiadau newydd"**

**"Mae e wedi ennill cryn dipyn o annibyniaeth. Mae'n braf ei fod yn eitha lleol oherwydd mae'n gallu dal bws ar ei ben ei hun ac yn hyderus iawn yn mynd i Aberaeron a nôl siopa ar y ffordd adref wedyn."**

**“Mae [cyfranogwr] yn dioddef o ffobia cymdeithasol. Roedd yn anodd ei chael hi i fynd i grŵp. Mae hi wedi dod allan o’i chragen o ran hynny.”**

**“Rwy’n teimlo’n eitha diogel gydag ef yno. Dw i’n gwybod ei fod yn hapus.”**

**“Mae [cyfranogwr] wedi gwneud rhywfaint o wirfoddoli gyda [coleg lleol]. Helpodd gyda’r cylch chwarae i blant bach, ac roedd wrth ei fodd.”**

RAY Ceredigion

## Prosiect Ôl-Peilot

Mae’r prosiect wedi derbyn cyllid y tu hwnt i arian Cynnal y Cardi gan y Loteri Genedlaethol. Bydd y cyllid hwn yn caniatáu i’r prosiect gael ei gynnal wrth symud ymlaen—er ar sail unwaith yr wythnos—hyd at fis Rhagfyr 2022. O ganlyniad i’r prosiect peilot hwn, mae cyllid pellach hefyd wedi’i sicrhau i ddatblygu syniadau a all ddod yn fenter gymdeithasol ar raddfa fach gyda gweithgareddau cynhyrchu incwm.

Yn ogystal, y gobaith o fewn tîm y prosiect yw y bydd creu menter gymdeithasol — ar ffurf caffi i gyfranogwyr Dyma Ni weithio ynddo neu werthu’r crefftau a wneir o fewn y prosiect — yn helpu i fwydo arian yn ôl i’r prosiect ac yn cynorthwyo cynaliadwyedd y grŵp.

Cyngor Sir CEREDIGION County Council
CYNNAL Y CARDI
Creu Cymunedau Cynaliadwy
Creating Sustainable Communities
Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government